**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

14 Mehefin 2017

Annwyl Simon

**Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)**

Rwyf yn falch o gadarnhau fy mod wedi gosod y memorandwm esboniadol diwygiedig ar gyfer Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) yn unol â Rheol Sefydlog 26.28. Mae'r ddogfen yn adlewyrchu'r diwygiadau i'r Bil fel y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor yn ystod trafodion Cyfnod 2 ar 11 Mai, gan gynnwys yr asesiad effaith rheoleiddiol diwygiedig a'r nodiadau esboniadol.

Er mwyn helpu'r Aelodau, y Pwyllgor Cyllid ac unrhyw un arall sydd am ganolbwyntio ar y meysydd sydd wedi newid yn y memorandwm esboniadol, rwyf wedi amlinellu'r prif newidiadau yn atodiad 1.

Rwyf yn falch o ddweud wrthych imi gyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig Lesley Griffiths ar 16 Mai i drafod rheoli Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. O gofio amcanion amgylcheddol ehangach y Cynllun, rydym wedi cytuno y bydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros weithredu'r Cynllun fel y cafodd ei gaffael, ar ôl iddo gael ei sefydlu, yn ogystal â sicrhau bod y Cynllun yn cyd-fynd ag amcanion amgylcheddol ehangach.

Hoffwn ddiolch Pwyllgor unwaith eto am ei waith craffu ar y Bil hyd yn hyn. Mae craffu'n rhan bwysig o lywio a mireinio deddfwriaeth Cymru ac rwyf yn falch bod Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor wedi llwyddo i fynd ati mewn ffordd effro a chydweithredol i ymdrin â'r trethi Cymreig newydd. Edrychaf ymlaen at drafod gwelliannau Cyfnod 3 arfaethedig i'r Bil ar 20 Mehefin.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi. Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

## Atodiad 1

## Treth Gwarediadau Tirlenwi (Bil Cymru) – Trosolwg o'r newidiadau i'r Memorandwm Esboniadol yn dilyn Cyfnod 2

| Rheswm dros y newid | Adran o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2 | Adran o EMRIA | tudalen/<br>cyfeiriadau at baragraffau |
|---|---|---|---|
| Esemptiad Mynwentydd Anifeiliaid Anwes<br><br>Cyfnod 2 Gwelliannau 1 a 2<br><br>Effaith y Gwelliannau;<br>Mae'r esemptiad ar gyfer Mynwentydd Anifeiliaid Anwes yn gymwys i Anifeiliaid Anwes marw, ac unrhyw gynhwysydd y mae eu gweddillion, boed carcasau neu ludw, wedi'u cynnwys ynddynt. | Adran 11 – Mynwentydd Anifeiliaid Anwes | Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael;<br><br>Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol; Rhan 1-Pennod 3 – Gwarediadau Esempt | Tudalen 17, para 3.37<br><br>Tudalen 129, para 28 |
| Pwysau trethadwy deunydd<br><br>Cyfnod 2 Gwelliannau 3 a 4<br><br>Effaith y Gwelliannau:<br>Rhaid i weithredwr safle tirlenwi bennu pwysau'r deunydd mewn gwarediad trethadwy trwy | Adran 20 – pennu pwysau deunydd gan y gweithredwr. | Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael;<br><br>Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Pennod 8: Costau a Manteision; | Tudalen 25, para 3.78 -3.81<br><br>Tudalen 96, para 8.61 |

| Rheswm dros y newid | Adran o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2 | Adran o EMRIA | tudalen/ cyfeiriadau at baragraffau |
|---|---|---|---|
| ddefnyddio pont bwyso. Rhaid i'r gweithredwr sicrhau bod y deunydd yn cael ei bwyso ar bont bwysau cyn i'r gwarediad gael ei wneud a bod y bont bwyso'n bodloni'r gofynion mewn deddfwriaeth gymwys ym maes pwysau a mesurau. Mae'r darpariaethau'n ddistaw ynghylch pryd y mae rhaid i weithredwr y safle tirlenwi bennu pwysau'r deunydd. | | Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol; Adrannau 18 i 20 – Cyfrifo pwysau trethadwy deunydd | Tudalen 131, para 44 |
| Datgelu Gwybodaeth<br><br>Cyfnod 2 Gwelliant 5<br><br>Effaith y Gwelliant:<br>Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol Cymru wedi'u hawdurdodi i ddatgelu gwybodaeth i ACC i helpu ACC i gasglu a rheoli LDT, mae'r gwelliant yn egluro nad yw hyn yn caniatáu datgeliad sy'n groes i Ddeddf Diogelu Data 1988 neu Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016. | Adran 59 – Datgelu gwybodaeth i ACC | Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael;<br><br>Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol; | Tudalen 35, para 3.129<br>Tudalen 35, para 3.130<br><br>Tudalen 144, para 124<br>Tudalen 150, para 128 |

| **Rheswm dros y newid** | **Adran o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2** | **Adran o EMRIA** | **tudalen/ cyfeiriadau at baragraffau** |
|---|---|---|---|
| Ymhellach, mewn ymateb i drafodaethau yn y Pwyllgor Cyllid mae'r darpariaethau rheoli gwybodaeth yn Neddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) adran 18 wedi'u croesgyfeirio i'w gwneud yn glir sut y mae rhannu gwybodaeth gan ACC ag awdurdodau lleol neu gyrff eraill yn cael ei lywodraethu. | | | |
| Pwysau Trethadwy deunydd<br><br>Cyfnod 2 Gwelliant 6<br><br>Effaith y Gwelliant:<br>Egluro cwmpas y gosb am fethiant i gydymffurfio ag adran 20. Fel nad yw'r rhwymedigaeth i dalu cosb ond yn codi os yw'r gweithredwr yn methu â phennu pwysau gwarediad trethadwy yn unol ag adran 20. | Adran 60 – Cosb am fethu a phennu pwysau yn briodol | Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael<br><br>Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol. | Tudalen 35, para 3.134<br><br>Tudalen 145, para 130 |
| Cosbau<br><br>Cyfnod 2 Gwelliant 7 | Adran 67 – Cosbau sy'n ymwneud a mannau nad ydynt at ddibenion gwaredu | Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol. | Tudalen 146, para 136 |

| **Rheswm dros y newid** | **Adran o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2** | **Adran o EMRIA** | **tudalen/ cyfeiriadau at baragraffau** |
|---|---|---|---|
| Effaith y Gwelliant:<br>Yn gostwng y gosb uchaf sy'n daladwy o £5000 to £3000 am fethiant i gydymffurfio â'r gofynion a nodir o dan adrannau 55 a 56. | | | |
| Cosbau<br><br>Cyfnod 2 Gwelliant 8<br><br><br>Effaith y Gwelliant:<br>Bydd cosb o dan adran 67(1) o'r Bil yn gymwys i bob methiant ar wahân i gydymffurfio â gofyniad a orfodir gan neu o dan adran 55 (dyletswyddau gweithredwr mewn perthynas â man nad yw at ddibenion gwaredu) neu adran 56 (dyletswyddau i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel). | Adran 67 – Cosbau sy'n ymwneud a mannau nad ydynt at ddibenion gwaredu | Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalen 33, para 3.121 |
| Rhyddhad rhag Treth<br><br>Cyfnod 2 Gwelliant 11<br><br><br>Effaith y Gwelliant: | Adran 26 - Deunydd a dynnir o wely afon, o wely'r môr neu o wely dyfroedd eraill | Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol. | Tudalen 133, para 55 a 56 |

| **Rheswm dros y newid** | **Adran o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2** | **Adran o EMRIA** | **tudalen/ cyfeiriadau at baragraffau** |
|---|---|---|---|
| Yn caniatáu i ryddhad rhag trethi gael ei gymhwyso i warediad trethadwy deunydd a dynnir o wely afon, camlas neu gwrs dŵr, doc, harbwr neu ffyrdd dynesu at harbwr heb fod angen dangos iddo gael ei dynnu er lles mordwyo. | | | |
| Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi<br><br>Cyfnod 2 Gwelliant 12<br><br>Effaith y Gwelliant:<br>Mae adran newydd wedi cael ei mewnosod yn y Bil fel a ganlyn. Mae hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi cynllun cymunedau y dreth gwarediadau tirlenwi, a fydd yn darparu cyllid grant er budd cymunedau y mae gwaredu tirlenwi'n effeithio arnynt. | Adran 90 - Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 1: Disgrifiad;<br><br>Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael;<br><br>Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 4: Ymgynghori;<br><br>Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol;<br>Pennod 6: Asesiad Effaith Rheoleiddiol (Tabl 5: Asesiad Effaith Rheoleiddiol Cryno); | Tudalen 6, para 1.4<br><br>Tudalen 41, para 3.159<br><br>Tudalen 47, para 4.15<br><br>Tudalennau 75-78 |

| **Rheswm dros y newid** | **Adran o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2** | **Adran o EMRIA** | **tudalen/ cyfeiriadau at baragraffau** |
|---|---|---|---|
| | | Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol;<br>Pennod 7: Y dewisiadau;<br><br>Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol;<br>Pennod 8: Costau a Manteision;<br><br>Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol. | Tudalennau 81-84, paragraffau 7.18-7.38<br><br>Tudalennau 100-109, paragraffau 8.83-8.112<br><br>Tudalen 125, para 11 (Rhan 5 – darpariaeth atodol); Tudalen 150, paragraffau 163-166 |
| Datgelu Gwybodaeth<br><br>Cyfnod 2 Gwelliant 13<br><br>Effaith y Gwelliant: Mae rheoliadau a wneir o dan adran 59(5) o'r Bil at ddiben ychwanegu, addasu neu dynnu personau a allai ddatgelu gwybodaeth i ACC o dan adran 59 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. | Amherthnasol | Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 5: Y pŵer i wneud Is-ddeddfwriaeth. | Cofnod tudalen 67 mewn perthynas ag adran 59(5) |
| Pwysau trethadwy deunydd (Disgownt Dŵr ) | Adran 19 – Cyfrifo pwysau trethadwy deunydd gan y | Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 3: | Tudalen 27, paragraffau 3.88 – 3.89 a 3.92 |

| **Rheswm dros y newid** | **Adran o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2** | **Adran o EMRIA** | **tudalen/ cyfeiriadau at baragraffau** |
|---|---|---|---|
| Cyfnod 2 Gwelliant 14<br><br>Effaith y Gwelliant:<br>Bydd gan weithredwr safle tirlenwi awdurdodedig sydd â chymeradwyaeth i gymhwyso disgownt dŵr mewn perthynas â gwarediad trethadwy'r disgresiwn i gymhwyso'r disgownt hwnnw neu ddisgownt llai. Lle bo gweithredwr yn cymhwyso disgownt dŵr rhaid gwneud hynny yn ddarostyngedig i amodau'r gymeradwyaeth (os oes un yn bodoli). | gweithredwr | Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael<br><br>Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol. | Tudalen 129, para 43 |
| Pwysau trethadwy deunydd (Disgownt Dŵr)<br><br>Cyfnod 2 Gwelliant 16<br><br>Effaith y Gwelliant:<br>Lle bo ACC yn cyfrifo pwysau trethadwy deunydd a lle bo cymeradwyaeth ar gyfer disgownt dŵr, rhaid iddynt gymhwyso'r disgownt yn ddarostyngedig i amodau'r gymeradwyaeth. | Adran 22 – Cyfrifo pwysau trethadwy deunydd gan ACC | Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalen 25, paragraffau 3.80 a 3.81 |

| **Rheswm dros y newid** | **Adran o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2** | **Adran o EMRIA** | **tudalen/ cyfeiriadau at baragraffau** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Pwysau trethadwy deunydd (Disgownt Dŵr)<br><br>Cyfnod 2 Gwelliant 17 a 18<br><br>Effaith y Gwelliant:<br>Lle bo ACC yn cyfrifo pwysau trethadwy deunydd ac yn canfod bod gan weithredwr gymeradwyaeth i gymhwyso disgownt dŵr ond ei fod yn torri'r gymeradwyaeth honno, caiff ACC anwybyddu neu leihau'r disgownt sydd i'w gymhwyso. | Adran 23 – Cyfrifo pwysau trethadwy deunydd gan ACC: achosion o ddiffyg cydymffurfio | Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol. | Tudalen 132, para 52 |
| Rhyddhad rhag treth - (rhyddhad ail-lenwi)<br><br>Cyfnod 2 Gwelliant 19<br><br>Effaith y Gwelliant:<br>Yn caniatáu i ryddhad rhag treth gael ei gymhwyso i warediad trethadwy deunydd sy'n cynnwys deunydd cymwys, a waredir mewn safle tirlenwi awdurdodedig (neu ran o safle o'r fath), os oedd y safle'n cael ei ddefnyddio fel | Adran 31 - Ail-lenwi mwyngloddiau brig a chwareli | Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael;<br><br>Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol. | Tudalen 18, para 3.42<br><br>Tudalen 134, para 65 |

| Rheswm dros y newid | Adran o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2 | Adran o EMRIA | tudalen/ cyfeiriadau at baragraffau |
|---|---|---|---|
| mwynglawdd brig neu chwarel. Ymhellach, nid yw gwarediad yn cael ei ryddhau rhag treth os caiff ei wneud gydag amod caniatâd cynllunio i ail-lenwi'r safle yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar ôl i weithrediadau ddod i ben.<br>Yn ychwanegol, nid yw'r rhyddhad hwn rhag treth ond yn gymwys lle nad oes unrhyw warediadau trethadwy eraill wedi digwydd, heblaw'r gwarediadau o dan yr adran 31 hon neu adran 27 o'r Bil. | | | |
| Pwysau trethadwy deunydd (cosb disgownt dŵr)<br><br>Cyfnod 2 Gwelliant 20<br><br>Effaith y Gwelliant:<br>Yn egluro cwmpas y gosb. Nid yw rhwymedigaeth i gosb yn codi os bydd gweithredwr safle tirlenwi awdurdodedig yn cymhwyso disgownt heb gael cymeradwyaeth o dan adran 21 o'r Bil i wneud hynny, neu lle bo gweithredwr yn cymhwyso | Adran 61 - Cosb am gymhwyso’r disgownt dŵr yn anghywir | Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol. | Tudalen 145, para 131 |

| **Rheswm dros y newid** | **Adran o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2** | **Adran o EMRIA** | **tudalen/ cyfeiriadau at baragraffau** |
|---|---|---|---|
| disgownt sy'n fwy na'r disgownt a gymeradwyir o dan adran 21 o'r Bil. | | | |
| Deunydd Cymwys<br><br>Cyfnod 2 Gwelliant 22, 23 a 24<br><br>Effaith y Gwelliant:<br>Caiff y deunyddiau cymwys a'r amodau (os oes rhai) sy'n gysylltiedig â phob deunydd eu rhestru yn atodlen 4 i'r Bil (yn hytrach nag mewn rheoliadau). | Adran 15 - Deunydd Cymwys | Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 1: Disgrifiad;<br><br>Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael;<br><br>Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 5: Y pŵer i wneud Is-ddeddfwriaeth;<br><br>Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol. Adran 15 – Deunydd cymwys. | Tudalen 6, para 1.4<br><br>Tudalen 22, paragraffau 3.61- 3.63<br><br>Tudalen 57, cofnod mewn perthynas ag adran 15.<br><br>Tudalen 130, para 34 |
| Deunydd Cymwys<br><br>Cyfnod 2 Gwelliant 25<br><br>Effaith y Gwelliant:<br>Yn mewnosod atodlen newydd i | Atodlen 1 - Deunydd cymwys Deunyddiau ac Amodau Arbennig | Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael; | Tudalen 41, para 3.160 |

| **Rheswm dros y newid** | **Adran o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2** | **Adran o EMRIA** | **tudalen/ cyfeiriadau at baragraffau** |
|---|---|---|---|
| mewn i'r Bil i bennu grwpiau o ddeunydd ac amodau (os oes rhai) sy'n gysylltiedig â'r deunydd sy'n gymwys am y gyfradd is o dreth o dan adran 14. | | Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol. | Tudalen 125, para 11 (Rhan 3 – Gwarediadau Trethadwy a wneir mewn safleoedd tirlenwi awdurdodedig) |
| Darparu enghreifftiau o sut y gall Gweinidogion Cymru wahaniaethu rhwng y weithdrefn gadarnhaol a'r weithdrefn negyddol mewn perthynas ag adran 90 o Fil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) fel y'i cyflwynwyd. | Adran 91 | Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol. | Tudalennau 150-151, paragraffau 167- 169 |
| Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi cyfraddau trethi LDT erbyn 1 Hydref 2017. | Amherthnasol | Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael; | Tudalen 12, para 3.9; Tudalen 21, para 3.53; |
| Rhagolygon y Dreth Dirlenwi - diweddaru rhagolygon OBR | Amherthnasol | Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael. | Tudalen 11, Tabl 2 |
| Egluro pryd y bernir bod | Amherthnasol | Rhan 1: Memorandwm | Tudalennau 15-16, paragraffau |

| **Rheswm dros y newid** | **Adran o'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2** | **Adran o EMRIA** | **tudalen/ cyfeiriadau at baragraffau** |
|---|---|---|---|
| gwarediad trethadwy wedi digwydd ac esboniad pellach o'r bwriad i waredu prawf. | | Esboniadol; Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael;<br><br>Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol. | 3.28-3.33<br><br>Tudalen 127, para 17 |
| Credydau Treth - Rhyddhad Dyledion Drwg. Sicrhau cysondeb â'r Datganiad o Fwriad Polisi a gyhoeddwyd ar 21 Ebrill. | Amherthnasol | Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael. | Tudalen 20, para 3.49 |
| Cytundeb Llywodraeth Cymru i weithio gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru i drafod yr angen am Ddeddf Cyllid (Cymru) flynyddol yn y dyfodol. | Amherthnasol | Rhan 1: Memorandwm Esboniadol; Pennod 3: Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael. | Tudalen 22, para 3.58. |